Cyflwyniad

Mae'r Arweiniad i Gydadolygiadau yng Nghymru yn gyflwyniad i'r fframwaith cyffredinol ar gyfer ail gylch y cydadolygiadau a ddechreuwyd yn 2004. Amlinellir ynddo y sail resymegol sy'n sylfaen i'r rhaglen adolygu a strwythur y broses adolygu.

Er hwylustod, ceir yn y Llawlyfr hwn ddeunydd manylach sy'n eich tywys gam wrth gam drwy'r broses o gynnal cydadolygiad a'r gweithgareddau cysylltiedig. Fe'i bwriedir yn bennaf ar gyfer y rheini sydd ynghlwm wrth y broses o gynnal cydadolygiadau, er mwyn eu helpu gyda'r paratoadau ac er mwyn sicrhau dealltwriaeth dda o'r cydgyfrifoldebau.

Defnyddir y Llawlyfr ar gyfer deunydd y mae angen ei ddiweddaru yn fwy rheolaidd o ganlyniad i'r canlynol:

- sylwadau gan awdurdodau lleol, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ac eraill;
- datblygiadau ehangach ym maes gofal cymdeithasol a'r llywodraeth.

Hoffem ddiolch i'r holl randdeiliaid, yn arbennig aelodau'r grwpiau cyfeirio a'r amryw bobl a gymerodd ran yn yr ymgynghori, am eu cyfraniad i'r deunydd sydd yn y Llawlyfr hwn.

Mae'r Llawlyfr ar gael y wefan cydadolygiadau a gallwch ei gael ar CD os gwnewch gais am hynny. Mae copïau papur o'r holl ddogfennau sydd yn y Llawlyfr ar gael hefyd.